

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

Y BIL GOFAL: DIWYGIADAU MEWN PERTHYNAS Â LLEOLIADAU TRAWSFFINIOL AC ÔL-OFAL IECHYD MEDDWL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sy’n dod o fewn, neu sy’n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cyflwynwyd y Bil Gofal (y “Bil”) yn Nhŷr Arglwyddi ar 9 Mai 2013. Gwnaed nifer o ddiwygiadau yn y Bil ar ôl ei gyflwyno. Cynhwyswyd rhai o’r diwygiadau yn y Memorandwm cyntaf a osodwyd mewn perthynas â’r Bil (gosodwyd fersiwn ddiwygiedig o’r Memorandwm hwnnw ar 22 Gorffennaf). Yn y Memorandwm presennol, ymdrinnir â’r diwygiadau arfaethedig i gymalau 39 a 71 o’r Bil ac Atodlenni 1 a 4 iddo, fel y’u cyflwynwyd yn y Senedd ar 7 Hydref. Gellir gweld y Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2013-14/care.html>

Crynodeb o’r Bil a’i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd (DH) ac y mae Llywodraeth y DU yn datgan mai nodau’r Bil yw gwella safonau ac ansawdd ledled y sector gofal a moderneiddio’r gyfraith fel ei bod yn rhoi blaenoriaeth i les unigolion ac yn galluogi pawb y mae arnynt angen gofal iechyd neu ofal cymdeithasol i gael gofal o ansawdd da. Rhennir y Bil yn dair rhan:

Rhan 1 – yr elfennau allweddol:

- diwygio’r gofal a’r cymorth a roddir i oedolion, er mwyn cyflawni dyhead papur gwyn yr Adran Iechyd, *Caring for our Future*;
- cyflwyno cap ar y costau y bydd rhaid i bobl dalu am eu gofal yn ystod eu hoes, fel yr argymhellwyd gan y Comisiwn ar Gyllido Gofal a Chymorth yn Lloegr;
- cryfhau a moderneiddio’r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn yr adolygiad o Ofal Cymdeithasol i Oedolion.

Rhan 2 – trefniant newydd i gryfhau ansawdd y gofal drwy:

- ddyfarnu graddau rhagoriaeth o’r math a ddefnyddir gan Ofsted, i ysbytai a chartrefi gofal;
- pwerau sy’n caniatáu i’r Comisiwn Ansawdd Gofal sefydlu trefn fethiant newydd ar gyfer Ymddiriedolaethau Sefydledig, ar sail ansawdd;
- gwneud cyflenwi neu gyhoeddi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol gan ddarparwyr yn drosedd.

Rhan 3 – darparu ar gyfer sefydlu dau gorff newydd a fydd yn annibynnol ar yr Adran Iechyd, sef:

- Addysg Iechyd Lloegr (“*Health Education England*”), corff statudol a fydd yn cynorthwyo darparwyr a phroffesiynolion gofal iechyd i ymgymryd â’r cyfrifoldeb am addysgu a hyfforddi eu staff; ac
 - Awdurdod Ymchwil Iechyd (“*Health Research Authority*”) a fydd, yn yr un modd, yn cryfhau’r gallu i ddiogelu buddiannau cleifion mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, tra’n hyrwyddo ymchwil ac yn symleiddio’r broses o gymeradwyo.
4. Ar wahân i fân eithriadau, mae’r darpariaethau sydd yn y Bil yn gymwys o ran Lloegr yn unig.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

5. Mae’r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer yn gynwysedig yn Rhan 1 o’r Bil. Gweler y cymalau 39 a 71 ac Atodlenni 1 a 4 i’r Bil.
- 5.1 Mae’r diwygiadau mewn perthynas â chymal 39 ac Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â lleoliadau trawsffiniol. Roedd diwygiadau cynharach mewn perthynas â’r trefniadau trawsffiniol hyn yn destun Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, ac ystyriwyd hwy yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar y Bil Gofal. Nid oedd y memorandwm hwnnw, fodd bynnag, yn ymdrin â’r diwygiadau diweddaraf, ac oherwydd hynny roedd yn ofynnol paratoi’r memorandwm pellach hwn.

Lleoliadau Trawsffiniol

- 5.2 Mae cymal 39 yn cyflwyno Atodlen 1, sy’n gwneud darpariaeth ar gyfer lleoliadau trawsffiniol ac yn ymestyn i’r cyfan o’r Deyrnas Unedig. Mae’n caniatáu parhad gofal drwy gyfrwng trefniadau cilyddol rhwng pedair gwlad y Deyrnas Unedig ar gyfer lleoli oedolion mewn gofal preswyl (cartrefi gofal a mathau eraill o lety) mewn unrhyw un o’r pedair gwlad, yn unol â’u dymuniad. Gwneir darpariaeth hefyd i sicrhau mai’r awdurdod lleol sy’n gwneud y trefniadau a fydd yn parhau’n gyfrifol am dalu cost y lleoliadau. Yn Atodlen 1, gwneir darpariaeth hefyd ynglŷn â phwy sydd i ddyfarnu mewn unrhyw anghydfod rhwng awdurdodau lleol ynghylch pa awdurdod sy’n gyfrifol.
- 5.3 Bydd y diwygiadau arfaethedig yng nghymal 39 yn ychwanegu diffiniad o “*NHS accommodation*” (llety GIG), sy’n cynnwys unrhyw lety a ddarperir o dan y Deddfau perthnasol sy’n gymwys i briod gyfrifoldebau pob un o’r pedair gwlad i ddarparu gwasanaethau iechyd, sef:
- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006
 - Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
 - Deddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol (yr Alban) 1978
 - Erthygl 5(1) o Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972

Bydd y diffiniad hwn yn gymwys hefyd i Atodlen1, fel y'i cyflwynwyd gan gymal 39.

5.4 Cynigir diwygio Atodlen 1 yn y meysydd canlynol:

- Arosiadau mewn ysbyty – sicrhau bod yr awdurdod lleoli, mewn achosion pan leolir oedolyn ar draws ffin (yn unol ag Atodlen 1 o'r Bil Gofal) yn parhau'n gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth i'r oedolyn os digwydd iddo dreulio amser i ffwrdd o'i lety oherwydd arhosiad mewn ysbyty.
- Taliadau uniongyrchol – pwerau rheoleiddio newydd i alluogi cymhwyso trefniadau trawsffiniol (yn unol ag Atodlen 1 o'r Bil Gofal) mewn amgylchiadau pan wneir taliad uniongyrchol i ddiwallu anghenion yr oedolyn a'r oedolyn ei hunan wedyn yn trefnu'r llety. Bydd y pwerau'n sicrhau mai'r awdurdod a wnaeth y taliad uniongyrchol a fydd yn parhau'n gyfrifol am ofal yr oedolyn, yn yr un modd â phe bai'r awdurdod ei hunan wedi trefnu'r llety.
- Lleoliadau preswyl ac estynedig eraill – er mwyn cymhwyso'r trefniadau trawsffiniol yn Atodlen 1 i fathau eraill o leoliadau lletya (sydd i'w pennu mewn rheoliadau) yn ogystal â gofal preswyl, megis byw mewn llety â chymorth. Byddai hyn yn galluogi estyn y trefniadau trawsffiniol i gynnwys sefyllfaoedd pan fo awdurdod lleol mewn un wlad yn diwallu anghenion gofal a chymorth person mewn gwlad arall, ond nid yn gwneud y trefniadau i'w letya. Bwriedir y byddai'r rheoliadau'n eithrio unrhyw sefyllfaoedd pan fo'r oedolyn yn cael gofal yn ei gartref ei hunan.
- Addasiadau ariannol – Gwneir mân ddiwygiadau technegol hefyd yn y darpariaethau ym mharagraffau 6 a 7.

5.5 Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gan fod a wnelont â darparu llety i oedolion sydd arnynt angen gofal a chymorth. Mae hyn o fewn cymhwysedd y Cynulliad o dan adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (DLIC 2006) ac Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Mae lles cymdeithasol yn fater sydd o fewn pennawd pwnc 15 o Atodlen 7, DLIC 2006.

5.6 Nid yw'r darpariaethau hyn yn cynnwys unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

Ôl-ofal lechyd Meddwl

5.7 Mae cymal 71 yn gwneud diwygiadau yn adran 117 o Ddeddf lechyd Meddwl 1983 (Deddf 1983); mae'r adran honno'n gymwys ac yn ymestyn i Gymru a Lloegr. Bydd y newidiadau a gynigir gan gymal 71, gydag un eithriad, hefyd yn gymwys ac yn ymestyn i Gymru a Lloegr.

- 5.8 Mae'r diwygiadau'n cynnwys diffiniad o "*after-care services*" (gwasanaethau ôl-ofal) ac yn ceisio dileu anghysondebau yn y modd y pennir pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol mewn perthynas â darparu gwasanaethau ôl-ofal o dan Ddeddf 1983, drwy osod rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal i bobl a fu dan gadwad mewn ysbyty ar gyfer triniaeth am anhwylder meddyliol, ar yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal yng Nghymru neu Loegr lle mae'r person yn preswyllo fel arfer.
- 5.9 Bydd Atodlen 4 yn mewnosod Atodlen A1 newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014), a fydd yn addasu'r modd y cymhwysir adrannau 34, 36 a 37 o Ddeddf 2014 Act (ar ôl rhoi'r Cydsyniad Brenhinol i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a chychwyn y Ddeddf) yn achos personau sy'n cael taliad uniongyrchol i gaffael darpariaeth o'u gwasanaethau ôl-ofal o dan Ddeddf 1983.
- 5.10 Diwygir hefyd adran 163 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn egluro statws person o ran ei breswylfa arferol pan ddarperir gwasanaethau ôl-ofal iddo o dan Ddeddf 1983 mewn llety nad yw o fewn ardal yr awdurdod lleol lle mae'r person hwnnw'n preswyllo fel arfer.
- 5.11 O ran Cymru, bydd cymal 71 yn gwneud newidiadau fel a ganlyn:
- Cymhwysir diffiniad o "*after-care services*" at ddibenion adran 117 o Ddeddf 1983.
 - Newidir y sail ar gyfer penderfynu pa awdurdod a fydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117; yn y dyfodol, yr awdurdod a fydd yn gyfrifol fydd yr awdurdod ar gyfer yr ardal yng Nghymru neu Loegr lle'r oedd y person yn preswyllo fel arfer cyn ei roi dan gadwad mewn ysbyty. Os digwydd nad oedd gan y person breswylfa arferol yng Nghymru neu Loegr cyn ei roi dan gadwad mewn ysbyty, bydd y rheolau presennol yn parhau'n gymwys, a'r awdurdod cyfrifol fydd yr awdurdod lle'r oedd y person yn preswyllo neu'r awdurdod ar gyfer yr ardal y'i rhyddhawyd iddi.
 - Pan ddarperir llety i berson o dan adran 117 gan awdurdod lleol Cymreig, rhaid trin y person at ddibenion y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ei ôl-ofal iechyd meddwl yn unol â darpariaethau (diwygiedig) adran 117 (pa un a leolir y person hwnnw yng Nghymru neu yn Lloegr). Gwneir darpariaeth gyfatebol yn y Bil Gofal; ac felly, os bydd awdurdod lleol yn Lloegr yn lleoli person mewn llety o dan adran 117 o Ddeddf 1983, bydd yr awdurdod hwnnw'n parhau'n gyfrifol am y person hwnnw, pa un a leolir ef yn Lloegr neu yng Nghymru.
 - Caiff awdurdod lleol Cymreig ddarparu taliadau uniongyrchol i berson (plentyn neu oedolyn) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac yn cael gwasanaethau ôl-ofal o dan Ddeddf 1983. Mae'r Atodlen A1, a fewnosodir gan gymal 71, yn addasu adrannau 34, 36 a 37 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i ganiatáu i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol i bersonau ar gyfer caffael gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion ôl-ofal o dan adran 117.

- Mae'r cymal hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer datrys anghydfodau rhwng awdurdodau lleol ynghylch statws person o ran ei breswylfa arferol pan fo hawl gan y person hwnnw i gael gwasanaethau ôl-ofal. Os yw pob un o'r partion yn yr anghydfod yn awdurdodau lleol yng Nghymru, mater i Weinidogion Cymru fydd cymrodeddu rhyngddynt. Os yw'r partion yn yr anghydfod i gyd yn awdurdodau lleol yn Lloegr, bydd yn fater i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mewn achos o anghydfod rhwng un neu ragor o awdurdodau lleol yng Nghymru ac un neu ragor o awdurdodau lleol yn Lloegr, ynghylch pa awdurdod sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ôl-ofal (o dan adran 117), dyfernir ar yr anghydfod naill ai gan Weinidogion Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn ddibynnol ar ba bynnag drefniadau sydd i'w cytuno a'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol.

5.12 Y newidiadau a gynigir yng nghymal 71 na fyddant yn gymwys o ran Cymru yw'r canlynol:

- Mewnosodir adran 117A newydd yn Neddf Iechyd Meddwl 1983 a fydd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau a fydd, ar yr amod y bodlonir unrhyw amodau a ragnodir, yn gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn Lloegr yn darparu, neu'n trefnu i ddarparu, llety ar gyfer person sy'n cael gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117, a fydd yn gydnaws â'r dewis a fynegwyd gan y person hwnnw.

5.13 Mae'r darpariaethau'n ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gan fod a wnelont â darparu llety i oedolion sydd arnynt angen gofal a chymorth. Daw hyn o fewn cymhwysedd y Cynulliad o dan adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (DLIC 2006) ac Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Mae lles cymdeithasol yn fater sydd o fewn pennawd pwnc 15 o Atodlen 7, DLIC 2006.

5.14 Mae lles cymdeithasol yn fater sydd o fewn pennawd pwnc 15 o Atodlen 7 i DLIC 2006.

Rhyngddibyniaeth â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

6. Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Bil GCalI Cymru), sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad, yn darparu ar gyfer trawsnewid y gofal a'r cymorth i bobl sydd ag anghenion o'r fath yng Nghymru. Mae'n darparu'r adeiledd cyfreithiol angenrheidiol a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i wireddu ei weledigaeth o Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer Cymru. Yn wahanol i Ran 1 o'r Bil Gofal, mae'n cwmpasu pobl yn gyffredinol, h.y. plant, oedolion a'u gofalwyr. Unwaith y rhoddir y Cydsyniad Brenhinol i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a chychwyn y Ddeddf, bydd cymal 71 yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy fewnosod Atodlen A1 newydd, a fydd yn peri bod taliadau uniongyrchol yn gymwys hefyd ar gyfer darparu ôl-ofal iechyd meddwl yn unol â gofynion adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

Lleoliadau trawsffiniol

7. Y fantais o ddefnyddio Bil Gofal y DU yw y gellir gwneud trefniadau cilyddol rhwng Cymru a Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, na ellid eu gwneud o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Ôl-ofal iechyd meddwl

- 7.1 At ei gilydd, mae'r diwygiadau arfaethedig yn Neddf Iechyd Meddwl 1983, a gynigir yng nghymal 71 o'r Bil Gofal, yn cynrychioli newidiadau y mae'r ddwy Lywodraeth yn awyddus i'w gwneud. Mae'n hollbwysig bod newidiadau yn y sail ar gyfer pennu pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu ôl-ofal yn cael eu gwneud ar y cyd, er mwyn sicrhau y parheir i weithredu'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl yn effeithiol ar draws ffiniau.
- 7.2 Yn ychwanegol, gan fod GCaLI a'r Bil Gofal yn cael eu deddfu yr un pryd, byddai'r broses o ddrafftio diwygiadau i'r un deddfiad mewn dau fil gwahanol nid yn unig yn gymhleth iawn, ond byddai'r ddeddfwriaeth hefyd yn llai hygyrch oherwydd diwygiadau gwahaniaethol mewn dwy statud wahanol, a'r ddwy'n amcanu i gyflawni'r un newidiadau polisi.

Goblygiadau ariannol

8. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru nac i'r awdurdodau lleol o ganlyniad i'r darpariaethau a drafodir yn y memorandwm hwn. Mae awdurdodau lleol dan ddyletswydd i sicrhau parhad gofal i bobl sy'n preswyllo yn eu hardaloedd ac arnynt angen gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau ôl-ofal yn unol â gofynion adran 117 of o ddeddf Iechyd Meddwl 1983

Gwenda Thomas
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Hydref 2013